Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ysgol Breswyl Therapiwtig Amberleigh

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/09/2018**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Breswyl Therapiwtig Amberleigh yn ysgol arbennig annibynnol sydd wedi'i lleoli gerllaw tref farchnad y Trallwng, Powys. Mae'r ysgol yn darparu addysg, gofal a therapi i ddisgyblion rhwng 11 a 18 oed sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol 12 disgybl ar y gofrestr, bob un ohonynt yn fechgyn. Mae gan wyth o'r disgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae pob un o'r disgyblion yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru neu Loegr ac maent yn byw yn y cartref plant sy'n rhannu safle'r ysgol.

Mae'r cyfarwyddwr addysg wedi bod yn ei swydd am ddwy flynedd ac mae'r ysgol wedi penodi rheolwr addysg yn ddiweddar.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

- Mae dull holistig ac anogol yr ysgol, ynghyd â'i chwricwlwm personoledig, yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion a'u hagweddau at ddysgu. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd sylweddol tuag at ddod yn ddysgwyr cymwys o gymharu â'u mannau cychwyn unigol.
- Mae gan ddisgyblion a staff berthnasoedd gweithio cadarnhaol tu hwnt. Mae'r berthynas waith hon yn helpu disgyblion i ddatblygu hyder yn eu gallu a'u rhyngweithiadau cymdeithasol â'u cymheiriaid ac oedolion. Er enghraifft, ar ddiwedd bob dydd, mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn cyfarfod cymunedol gyda'u cymheiriaid, athrawon a gweithwyr allweddol eraill. Yn ystod y cyfarfod hwn, maent yn myfyrio'n unigol ar eu cynnydd a rhwystrau tuag at eu dysgu, er enghraifft eu hymddygiad eu hunain neu ymddygiad eu cymheiriaid. Mae disgyblion yn cyfleu eu syniadau yn feddylgar ac yn sensitif, ac yn gwrando ar eraill ac yn ymateb i eraill mewn ffordd debyg. Mae'r math hwn o weithgaredd yn helpu disgyblion i ddatblygu ymagweddau aeddfed tuag at fedrau dysgu a medrau bywyd pwysig.
- Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu broffesiynol gadarn, gyda ffocws clir ar wella arfer yn yr ystafell ddosbarth a'r tu hwnt. Mae staff yn gweithio'n llwyddiannus mewn timau cefnogol i fyfyrio ar eu harfer. Rhannant brofiadau gwahanol a thrafodant ffyrdd gwell o weithio, i helpu sicrhau bod disgyblion yn cyflawni deilliannau cadarnach.

### Meysydd i'w datblygu

- Mae amrywiaeth gynyddol eang o ddata ar gael i'r ysgol o'i system olrhain, sy'n dal gwybodaeth sy'n amrywio o ymddygiad disgyblion i ddata ar berfformiad a chynnydd. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn gwneud digon o ddefnydd o'r data

hwn i roi adborth â mwy o ffocws i ddisgyblion unigol nac fel rhan o hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella.

**Argymhellion**

| | |
|---|---|
| A1 | Gwneud defnydd gwell o ffynonellau data lluosog yr ysgol i lywio addysgu, dysgu a chynllunio ar gyfer gwella |

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau bod cynlluniau addysg unigol yn nodi anghenion penodol disgyblion ac yn darparu targedau clir ar gyfer mynd i'r afael â'r anghenion hyn**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r ysgol wedi gwella ansawdd cynlluniau addysg unigol disgyblion yn sylweddol. Mae wedi adolygu ei phrosesau blaenorol ar gyfer cynllunio i fodloni anghenion dysgu ychwanegol disgyblion ac wedi newid nifer o ddogfennau cynllunio am un amlinelliad i bob disgybl, sy'n croesgyfeirio'n glir â chofnodion cynnydd yr ysgol. O ganlyniad, mae cynlluniau addysg unigol yn cynnig cofnod effeithiol o ddysgu disgyblion ar draws y cwricwlwm.

**Argymhelliad 2: Cryfhau'r gweithdrefnau er mwyn i staff arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a rhannu arfer orau yn y pynciau y maent yn gyfrifol amdanynt**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi ymgymryd ag amrywiaeth eang o weithgareddau i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. Mae camau gweithredu yn cynnwys cyflwyno gwell rhaglen o arsylwadau gwersi gan reolwyr llinell a chymheiriaid yn yr ysgol, ynghyd ag arbenigwyr pwnc ar draws dwy ysgol y cwmni.

Mae arweinwyr pwnc ar gyfer llythrennedd a rhifedd hefyd wedi cynnal sesiynau hyfforddi staff i ddangos gwahanol ddulliau o ddatblygu medrau disgyblion yn y meysydd hyn. Mae'r hyfforddiant hwn yn helpu staff i ennill dealltwriaeth gliriach a manylach o sut i gefnogi disgyblion yn effeithiol yn y meysydd hyn yn eu hystafell ddosbarth. O ganlyniad, mae'n gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at wella safonau disgyblion mewn pynciau ar draws y cwricwlwm a chyflawni cymwysterau cydnabyddedig.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 1.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Breswyl Therapiwtig Amberleigh |
| **Rhif yr ysgol** | 6666042 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 09/07/2018 |
| **Perchennog** | Amberleigh Care – unigolyn wedi'i enwi: Kevin Gallagher (Rheolwr Gyfarwyddwr) |
| **Staff** | 1 cyfarwyddwr addysg; 1 rheolwr addysg/Cydlynydd ADY; 6 athro; 1 gweinyddwr ysgol |
| **Nifer y disgyblion** | 12 |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth ddydd, yn gysylltiedig â chartrefi plant y cwmni |
| **Math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 07/11/2016 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 03/07/2017 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | |